# Diweddariad Blynyddol PPC – 2024/2025

Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf.

Ar 31 Mawrth 2025, mae'r gronfa wedi cynyddu ei chyfran o asedau o dan reolaeth cronfeydd cyfunol i c75%. Ni lansiwyd unrhyw is-gronfeydd newydd yn 2024/25, ond cwblhawyd yr ymarfer caffael i nodi partneriaid i fynd i'r afael â gofynion Eiddo Tirol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Penodwyd Schroders a CBRE i ddarparu datrysiadau buddsoddi mewn Eiddo Tirol ar draws eiddo craidd yn y DU, eiddo byd-eang, ac eiddo tirol lleol/effaith yng Nghymru. Disgwylir i'r rhaglen Buddsoddi Eiddo Tirol gael ei lansio yn 2025/26 a bydd yn dod â chynigion cyfredol y Farchnad Breifat i ben.

Trwy'r raglenni Marchnad Breifat, mae'r PPC wedi gallu hwyluso buddsoddiadau mewn cyfleoedd buddsoddi lleol yng Nghymru ac mae'n awyddus i ddatblygu hyn ymhellach. Mae rhai enghreifftiau o fuddsoddi lleol yn cynnwys cyfleuster storio batris yn Aber-wysg, cymorth i dai fforddiadwy yn Llanarth, Ceredigion, buddsoddiad cyfalaf naturiol yng nghoedwig Brycheiniog a seilwaith adnewyddadwy ledled Cymru. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi dod â budd amrywiol i'r gymuned, gan gynnwys creu nifer o swyddi. Roedd PPC wrth ei fodd i gymryd rhan yn y "Gynhadledd Buddsoddi yng Nghymru" sef y gynhadledd gyntaf a llwyddiannus ddiweddar yng Nghaerdydd a gynhaliwyd gan Schroders a Banc Datblygu Cymru.

Cwblhawyd cynllun hyfforddi 2024/25 yn llwyddiannus gyda phedwar sesiwn hyfforddiant rhithwir yn cael eu cynnal. Mae hyfforddiant yn ffocws pwysig i'r PPC a hoffem ddiolch i'r holl gyflwynwyr a'r rhai oedd yn bresennol am eu hamser a'u cyfraniadau. Hefyd aeth swyddogion ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i ddiwrnod rheolwyr Ecwiti/Incwm Sefydlog blynyddol yn Llundain ac mae'r paratoadau ar y gweill i gynnal diwrnod rheolwyr Marchnadoedd Preifat cyntaf PPC, a gynhelir yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2025.

Ym mis Tachwedd 2024, roedd PPC yn falch iawn o gael gwobr arloesedd ESG yn seremoni Gwobrau Buddsoddi LGC. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu'r pwys hanfodol y mae'r PPC a'i hawdurdodau cyfansoddol yn dal i'w roi ar faterion cynaliadwyedd ac mae'n cydnabod llwyddiant ei Chronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, sydd wedi tyfu i fod yn un o'r cronfeydd buddsoddi cynaliadwy mwyaf o'i math yn y DU. Mae'r maes hwn yn dal i fod yn ganolbwynt i'r PPC, ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i wella nodweddion cynaliadwyedd y buddsoddiadau presennol, gan ystyried sut i ddatblygu'r is-gronfeydd Incwm Goddefol a Sefydlog i ddod yn fwy cynaliadwy.

Mae PPC wedi gwneud nifer o ailbenodiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Waystone fel y gweithredwr, Hymans Robertson fel yr Ymgynghorydd Goruchwylio a Robeco UK fel y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae Russell Investments yn dal i fod fel Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddiadau PPC. Roedd pob penodiad wedi dilyn ymarferion caffael cynhwysfawr.

Lansiodd y Llywodraeth ei Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Addas ar gyfer y Dyfodol ar 14 Tachwedd 2024, gan amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r broses o reoli buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnodd y llywodraeth i bob cronfa ystyried a chyflwyno cynigion i ddangos llwybr clir i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Cymeradwywyd cynnig achos busnes PPC gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 12 Mawrth 2025 ac fe'i cyflwynwyd i'r Llywodraeth. Mae'r cynnig hwn yn nodi'r achos busnes cymhellol i PPC gadw cronfa fuddsoddi annibynnol ar gyfer Cymru a bwrw ymlaen â chreu'r gofynion newydd arfaethedig gan y Llywodraeth ar gyfer y model gweithredu cronfa. Rydym yn falch iawn fod y llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC ac mae gwaith bellach ar y gweill i gyflawni hyn, o fewn yr amserlen angenrheidiol.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yr is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog dros y 12 mis diwethaf. Roedd pob marchnad wedi darparu adenillion cadarnhaol dros y flwyddyn ond, ar wahân i'r gronfa Cyfleoedd Byd-eang, roedd yr holl gronfeydd eraill y tu ôl i'r meincnod neu'r targed. Mae'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cael diweddariadau chwarterol o'r holl is-gronfeydd Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig, gydag esboniadau manwl mewn perthynas â pherfformiadau cymharol.

| | Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2025 (Ffioedd Net) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dyddiad Dechrau | Asedau Dan Reolaeth (£'000) | Cronfa % | Meincnod % | Cymharol % |
| Is-gronfeydd Ecwiti | | | | | |
| Twf Byd-eang | Chwefror 2019 | 3,542,478 | 0.86 | 3.10 | (2.24) |
| Cyfleoedd Byd-eang | Chwefror 2019 | 3,404,414 | 6.02 | 4.87 | 1.15 |
| Cyfleoedd y DU | Hydref 2019 | 765,816 | 6.66 | 10.46 | (3.80) |
| Marchnadoedd Datblygol | Hydref 2021 | 273,326 | 5.21 | 7.37 | (2.16) |
| Gweithredol Cynaliadwy | Mehefin 2023 | 1,525,044 | 0.21 | 4.87 | (4.66) |
| Is-gronfeydd Incwm Sefydlog | | | | | |
| Credyd y DU | Awst 2020 | 726,742 | 2.63 | 3.09 | (0.46) |
| Bond Llywodraeth Fyd-eang | Awst 2020 | 503,590 | 3.01 | 3.38 | (0.37) |
| Credyd Byd-eang | Awst 2020 | 1,026,803 | 4.72 | 4.84 | (0.12) |
| Cronfa Credyd Aml-asedau | Awst 2020 | 849,467 | 7.07 | 9.28^ | |
| Bond Elw Absoliwt | Medi 2020 | 533,201 | 7.65 | 7.19^ | |

*Ffynhonnell: Adroddiad Northern Trust fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025*

*^ Mae'r rhain yn dangos targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt*

Yn ystod 2024/25, cyflwynodd PPC ei phedwerydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol a bu'n llwyddiannus o ran cadw ei statws fel llofnodwr Côd Stiwardiaeth y DU. Hefyd cwblhaodd PPC ei hadroddiad hinsawdd blynyddol cyntaf ar lefel y gronfa, yn ogystal â dadansoddiad wedi'i ddiweddaru ynghylch cysylltiad â datgoedwigo o fewn ei His-gronfeydd ecwiti rhestredig. Dros y flwyddyn, datblygodd PPC nifer o argymhellion o Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024), gan gynnwys datblygu'r Fframwaith Hinsawdd a'r rhestr sydd â ffocws ar yr hinsawdd, yn ogystal â datblygu cynigion buddsoddi PPC. Mae'r adroddiadau hyn, yn ogystal â pholisïau a chynlluniau eraill PPC i'w gweld ar wefan PPC – Cronfa Bensiwn Cymru | Cyhoeddiadau.

O ran stiwardiaeth, chwaraeodd PPC ran weithredol mewn dau o baneli cleientiaid Robeco dros y flwyddyn, gyda nifer o feysydd ymgysylltu'n cael eu trafod yn weithredol, gan gynnwys ymgysylltu mewn ardaloedd y mae gwrthdaro yn effeithio arnynt ac sy'n wynebu risg uchel, bioamrywiaeth (gan gynnwys y cydgysylltiad rhwng hinsawdd a natur), ymgysylltu sofran (gan gynnwys ymgysylltu polisi) a newid hinsawdd. Mae'r crynodebau o'r gweithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco ar ran PPC dros y 12 mis diwethaf yn cael eu nodi isod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y pleidleisiau ar gynigion | 16,406 | Nifer y cyfarfodydd | 1,364 |
| O blaid | 14,278 (87%) | Gyda'r rheolwyr | 14,029 (85%) |
| Yn erbyn | 1,812 (11%) | Yn erbyn y rheolwyr | 1,910 (12%) |
| Arall | 316 (2%) | Amherthnasol | 467 (3%) |
| Cyfanswm | 16,406 | Cyfanswm | 16,406 |

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Yr Amgylchedd | 184 |
| Cymdeithasol | 76 |
| Llywodraethu | 67 |
| NDC | 187 |
| Dadleuon Byd-eang | 63 |
| Cysylltiedig â phleidleisio | 14 |
| Cyfanswm | 591 |

*Ffynhonnell: Robeco; mae canrannau'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.*

Fel cronfa, rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd dyfodol PPC yn datblygu ac fel bob amser, rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a chyfraniad parhaus yr wyth Awdurdod Cyfansoddol.